**CYPE(6)-18-23- Papur i'w nodi 5**

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

Lynne Neagle AS
Y Ddirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Correspondenc.Lynne.Neagle@gov.wales

Dydd Gwener 02 Mehefin 2023

Annwyl Ddirprwy Weinidog,

## Sylwadau Terfynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Fel y gwyddoch, drwy gadarnhau'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn (CRC), derbyniodd y DU rwymedigaeth, yn rhwymol o dan gyfraith ryngwladol, i barchu, amddiffyn a chyflawni'r holl hawliau sydd ynddo. Yn ddiweddar, archwiliodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig (CU) ar Hawliau'r Plentyn (CRC y CU) sut mae'r DU yn gweithredu'r CRC, ac mae bellach wedi cyhoeddi ei Sylwadau Terfynol ar wella hawliau plant yn y DU. Mae'r Sylwadau Terfynol hyn yn cynrychioli dehongliad awdurdodol y Pwyllgor o'r camau sy'n ofynnol gan

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.
The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

**equalityhumanrights.com**

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

Lywodraeth Cymru i roi ei rhwymedigaethau tuag at blant ar waith. Cyflwynodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CCHD), fel Sefydliad Hawliau Dynol Cenedlaethol Cymru a Lloegr a gydnabyddir gan y Cenhedloedd Unedig, ac ar gyfer materion a gadwyd yn ôl yn yr Alban, dystiolaeth ysgrifenedig i CRC y CU a gwnaeth gynrychioliadau llafar. Roeddem yn falch o weld llawer o'n hargymhellion yn cael eu hadlewyrchu gan CRC y CU.

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2006, mae'n ofynnol i'r CCHD hybu dealltwriaeth o, ac annog arfer da o ran, holl hawliau dynol. Yn unol â'r mandad hwn, edrychwn ymlaen at weithio gyda chi a'ch swyddogion i roi'r Sylwadau Terfynol ar waith. Mae Llywodraeth Cymru yn chwarae rhan allweddol a gweithredol wrth weithredu llawer o argymhellion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'r CCHD, a CRC y CU, wedi argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu ac yn cyhoeddi Cynllun Gweithredu ar Hawliau Plant, gan nodi sut y mae'n bwriadu gweithredu'r argymhellion diweddaraf. Byddem yn croesawu'r cyfle i weithio gyda'r Llywodraeth i lunio'r cynllun hwn a chynghori ar ei gyflawni'n effeithiol.

Rydym yn croesawu ymgysylltiad Llywodraeth Cymru yn ystod yr archwiliad diweddar ac yn parhau i ymgysylltu'n adeiladol â'ch swyddogion. Byddem yn



**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

**equalityhumanrights.com**

croesawu'r cyfle i drafod hawliau plant a gweithredu'r Sylwadau Terfynol gyda chi a'ch swyddogion, fel y bo'n briodol.

Rwyf hefyd yn copïo'r llythyr hwn i Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ac i Jayne Bryant AS, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Yr eiddoch yn gywir,

Eryl Besse
Comisiynydd Cymru a Chyd Ddirprwy Gadeirydd

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

**equalityhumanrights.com**